# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

Newyddlen

Mehefin 2019

**Helo 'na.....**

Rydyn ni'n gweithio i adfer cronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen i'w hen ogoniant, ac mae'r gwaith hyd yma'n mynd yn dda.

Yn y cylchlythyr hwn, cewch ychydig y rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed ac am y gwaith sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf.  Gobeithio y bydd y wybodaeth o ddefnydd i chi.

## Adlenwi cronfa ddŵr Llanisien

Rydyn ni wedi dechrau adlenwi cronfa ddŵr Llanisien gan ddefnyddio cyfuniad o ddŵr glaw a'r nentydd lleol sy'n bwydo'r gronfa.

Mae'r broses o adlenwi'n gallu cymryd hyd at ddwy flynedd, felly rydyn ni wedi cyflawni'r holl waith angenrheidiol i drwsio basn y gronfa'n gyntaf. Wrth i'r gronfa adlenwi, byddwn ni'n bwrw ymlaen â'n gwaith ar y tir.

Nid oedd angen draenio cronfa ddŵr Llys-faen yn llwyr, dim ond gostwng y lefelau rhyw 2 fetr, felly mae hi'n dal i fod fwy neu lai'n llawn. Fodd bynnag, rydyn ni wedi cyflawni gwaith adfer arni, gan glirio'r llystyfiant a thrwsio rhai o'r cerrig wyneb diffygiol.

## Gosod pibellau newydd

Rydyn ni'n gosod pibell ddŵr newydd ar hyd lan ddwyreiniol cronfa Llanisien, a fydd yn helpu i wella gwytnwch cyflenwadau dŵr ein cwsmeriaid yng Nghaerdydd am flynyddoedd i ddod.



Cloddio i neilltuo'r brif bibell ddŵr fyw

Mae'r gwaith yma'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl am fod angen neilltuo prif bibell ddŵr fyw bwysig sy'n darparu cyflenwadau dŵr miloedd o gwsmeriaid yng Nghaerdydd.



Y tîm yn paratoi i adlenwi'r gronfa.

Rydyn ni wedi neilltuo'r brif bibell ddŵr fyw yn llwyddiannus erbyn hyn, felly ar 4 Mawrth bu modd dechrau gosod y pibellau newydd. Rydyn bron wedi gorffen y gwaith ac yn flin am yr oedi.

Bydd mynediad ar gael trwy'r cae ger heol Rhydypennau wrth i ni gyflawni'r gwaith.

Ond rydyn ni'n argymell bod cerddwyr heb esgidiau cadarn yn defnyddio gwyriad Black Oak Road, gan ddilyn yr arwyddion lleol.



Neilltuwyd y brif bibell ddŵr yn llwyddiannus



Cyflawnwyd y gwaith angenrheidiol heb fod angen draenio cronfa ddŵr Llys-faen.

Dŵr Cymru Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 dwrcymru.com

# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien
Newyddlen

Mehefin 2019


Y sgrin newydd yn barod i gael ei gosod wrth fynedfa'r twnnel

## Adnewyddu'r tŵr falfiau

Rydyn ni wedi adnewyddu'r holl falfiau a phibellwaith yn y tŵr falfiau, fel y byddant yn fwy gwydn at y dyfodol. Defnyddir y tŵr falfiau i reoli a chynnal lefelau'r dŵr yng nghronfa ddŵr Llanisien, a phan fydd y gronfa'n llawn eto, bydd yn codi dŵr crai i gyflenwi Gweithfeydd Dur Celsa hefyd.

Defnyddiwyd dulliau modelu 3D i'n helpu ni gyda'n cynlluniau i adnewyddu'r holl bibellwaith a falfiau yn y tŵr. Mae'r modelau'n helpu i ddangos y gwahanol lefelau yn y tŵr fel y gall y tîm weld yr holl falfiau a'r pibellwaith yn glir.

## Plymwyr

Defnyddiwyd tîm arbenigol o blymwyr i gyflawni'r gwaith y tu fewn i un o'r twneli (twnnel y fewnfa sgwrio).

Prynwyd gwasanaethau'r tîm o bump plymiwr profiadol o Edwards Diving yng Nghaerffili i mewn i osod sgrin newydd a fydd yn atal malurion rhag mynd i'r twnnel.

Plymwyr arbenigol yn paratoi i osod y sgrin newydd


Defnyddiwyd peiriant turio i osod y sgrin newydd yn ei lle


## Cyfleusterau'r dyfodol

Er ein bod ni'n gweithio'n galed i adfer y cronfeydd dŵr, rydyn ni wedi bod yn brysur hefyd yn datblygu cynlluniau i sicrhau mynediad i'r cyhoedd a chyfleusterau hamdden yn y dyfodol. Er ein bod ni'n gobeithio bod mewn sefyllfa i rannu ein cynigion a chi'n fuan iawn, mae amser i chi ddweud eich dweud o hyd. Gallwch roi eich syniadau yn y blwch yn Hyb Cymunedol Llanisien, neu e-bostio lisvaneandllanishen@dwrcymru.com.

Croeso hefyd i chi roi galwad i Gwyn ar 01443 452452, gyda'ch awgrymiadau, neu gydag unrhyw gwestiynau am y gwaith ar y cronfeydd.